PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 11 Tachwedd, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), H. Gapper (Addysg Gymraeg) ac I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio), K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant) a Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. FFRAMWAITH GWELLA AC ATEBOLRWYDD (CDS) –

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r adroddiad a'r gwaith caled sy'n cael ei wneud ledled Bro Morgannwg a gan Gonsortiwm Canolbarth y De.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD GWASANAETH IEUENCTID (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y 12 mis diwethaf, y datblygiadau parhaus a'r cynnydd mewn darpariaeth.

(2) DYLID derbyn adroddiad diweddaru cynnydd pellach ynghylch cyflenwi parhaus, ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth o grantiau a chyllid Ewropeaidd a'r risgiau

y mae hyn yn ei peri mewn 12 mis.

(3) DYLID cyfathrebu i'r Cabinet trwy lythyr ar gyfer ei ystyriaeth sylwadau'r Pwyllgor ynghylch pwysigrwydd eirioli dros a chefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod trafodaethau cyllidebol sydd ar ddod.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) I sicrhau fod barn y Pwyllgor yn cael ei hystyried yn ystod ystyriaethau cyllidebol.

EITEM AGENDA 6. YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG (WESP) 2022-32 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – DYLID cymeradwyo'r adroddiad a'r Cynllun drafft.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn galluogi Cynllun cynhwysfawr a hyddysg i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau statudol o 31 Ionawr 2022.